# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 6ed o Ionawr 2022 drwy Zoom yn brydlon am 8.00 o'r gloch.**

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Tegid Jones (Cadeirydd), Aled Evans, Thomas Prys Jones, Sian Angharad Parry, Ceri Jones, Naomi Jones, Darren Morley, Gareth O.Davies, Angela Williams, Margaret Griffith, Aled Davies, William Ifor Hughes a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Anwen Jones, Trefor Wyn Jones, a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 2ail o Ragfyr 2021. (Y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd lofnodi ei bod yn gywir).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Rhagfyr 2021 – (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 06.01.2022).

4. **Datgan buddiant personol**, - neb (roedd y Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod).

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**
**Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Ionawr 2022 – derbyn.**

| Dyddiad | Lleoliad gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| 12.01.2022 | Ger cigydd K.E.Taylor at gyffordd Lon Geraint, Cricieth | Ail wynebu lon am 3 wythnos | Priffyrdd |

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**
a) **Cais rhif: C21/1038/41/LL – Ty'n Lon, Afonwen** – sefydlu maes carafanau teithiol (19 uned) gyda bloc toiledau a gwaith cysylltiedig. **Gwrthwynebu ar y sail gorddatblygiad a bod llawer ohonynt ar hyd yr arfordir**

b) **Cais rhif: C21/1113/41/DT - Tyddyn Ychain, Chwilog**- estyniad deulawr ochr. **Dim gwrthwynebiad.**

**c) Cais rhif: C21/0957/41/LL - Gwesty Bron Eifion, Llanystumdwy, -** lleoli 3 pod gwyliau hunan gynhaliol, gosod system drin preifat a gwaith cysylltiedig. **Dim gwrthwynebiad.**

7. **Biniau halen o fewn y gymuned** – wedi derbyn gwybodaeth gan yr Adran Priffyrdd yn cadarnhau y byddent yn darparu halen yn y biniau pwrpasol yn ddi-dâl o hyn ymlaen, fel ychwanegiad i'r Gwasanaeth Cynnal yn y gaeaf ac yn cadw golwg arnynt, felly ni fydd angen i'r Cyngor Cymuned wneud hyn yn y dyfodol. **Derbyn er gwybodaeth.**

8. **Cynhadledd Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian** – 11.02.2022 am 10:30 y.b. drwy 'zoom'. Gellir nodi'r materion sydd angen ei trafod yn y cyfarfod hefo'r Gweithredwr Trenau, Network Rail, y Bartneriaeth neu'r Pwyllgor cyn 14.01.2022. **Derbyn**.

9. **Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pwer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) Cymru 2021**. – llythyr gan Un Llais Cymru ar ran Llywodraeth Cymru yn son ei bod am ei rhoi gerbron y Senedd er mwyn dod i rym ar 05.05.2022. Clerc wedi anfon manylion at aelodau o'r Cyngor mewn ebost ar 02.01.2022, sef yr isod:-

*Er gwybodaeth, fe dynnwyd sylw at hyn yn ein cyfarfod ar 01.04.2021 , eitem 7, sef*

*"7. **Crynodeb o brif ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer y Sector Cynghorau Cymuned a Thref** – trafod y prif bwyntiau ar y noson, sef:-*
***Grym Cymhwysiad Cyffredinol** ('general power of competence') – sef y bwriad o greu llywodraeth leol fwy effeithiol, galluog a blaengar, i weithredu er lles gorau y gymuned a sicrhau arbedion a chynnig gwerth am arian. Yr amodau i allu cyhoeddi fod y 'gyngor cymuned yn gymwys' yw:*

- *Cafodd o leiaf ddau draean o gyfanswm aelodau'r cyngor eu hethol, boed mewn etholiad arferol neu mewn is-etholiad.*
- *Fod gan glerc y cyngor pa gymhwyster bynnag neu ddisgrifiad o gymhwyster ag a fynnir gan Weinidogion Cymru trwy reoliadau, ac*
- *Os yw'r cyngor yn bodloni'r amod archwilio o fewn y 12 mis cynt.*

*Fe ddaw'r gallu i weithredu'r grym cymhwysedd cyffredinol ar gyfer cynghorau cymuned i gychwyn ar waith o'r 05.05.2022. Cyn hyn, cynhelir ymgynghoriad ar ganllawiau a'r rheoliadau yn nodi 'cymhwyster proffesiynol perthnasol' ar gyfer clerc, e.e. cymhwyster sector benodol megis Tysysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCa).*
***Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn haws cynnal cyfarfod mewn ffyrdd gwahanol, un a'i yn rhithiol neu i fynychu'n bersonol mewn lleoliad arall fel bo angen**. Mae'n gwneud darpariaeth barhaol ar gyfer cyfarfodydd o bell a chyhoeddi dogfennau yn electronaidd. Y bwriad yw y daw hyn i rym ar 01.05.2021 (mae hyn wedi ei gytuno gan Llywodraeth Cymru mewn ebost ar 24.03.21).*
***Adroddiadau Blynyddol Cynghorau Cymuned** – o fis Ebrill 2022 bydd gan gyngor cymuned ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor. Rhaid i'r adroddiad cyntaf gyfeirio at flwyddyn ariannol Ebrill 2021 – Mawrth 2022, a rhaid ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ol mis Ebrill 2022.*
***Hyfforddi aelodau a staff cynghorau cymuned** - bydd gan gynghorau cymuned ddyletswydd i ystyried hyfforddiant o'r 05.05.2022 ar gyfer cynghorwyr a staff a chyhoeddi'r cynlluniau hyfforddiant cyntaf erbyn mis Tachwedd 2022. Nid yw'n fwriad ceisio sicrhau fod pob un cynghorydd yn derbyn hyfforddiant ar yr un materion, y nod yw creu sefyllfa lle mae gan y cynghorwyr fel grwp, a'r staff fel corff, y wybodaeth sydd ei angen arnynt i weithredu'n effeithiol."* **Derbyn**.

10. **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:** Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref – ceisio barn ar ganllawiau statudol draft ar gyfer cynghorau cymuned a thref - os oes angen ymateb bydd angen gwneud cyn 17.03.2022. **Derbyn er gwybodaeth**

11. **Hyfforddiant** - ebost gan Un Llais Cymru yn cynnig sesiynau hyfforddi o bell a gynhelir rhwng Ionawr – Mawrth 2022. **Derbyn er gwybodaeth**

**Materion yn y gymuned**.

12. **Llanystumdwy**
a) **Parcio gyferbyn tai Maen y Wern ac i fyny am Tý Newydd** – problem fod trigolion sydd yn byw yn y tai yn parcio ar y lon gul yn ei gwneud yn anodd i gerbydau basio. Y Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn gofyn am y posiblrwydd o gael llinnellau melyn yno. **Dal heb gael ateb eto.**

b) **Afon Llanystumdwy** – derbyniwyd sylwadau mai un darn o bren oedd yn croesi'r ffos gyntaf ar hyd y llwybr ger yr afon, ar ol pasio'r Bedd. Mae'n debyg fod dau ddarn coedyn ('slipan lein') yno cynt. Hefyd, nodwyd fod coeden wedi prydru ac yn pwyso ar goeden arall gerllaw**. Clerc wedi anfon lluniau ac ymholiad at Cyngor Gwynedd, angen holi eto.**

c) **Llwybr yr arfordir rhwng Ynysgain Fawr a cheg yr afon Dwyfor**, - erydiad y tir yn bwyta mewn i'r llwybr troed, ac angen clirio'r eithin. **Y Clerc am hysybysu Cyngor Gwynedd.**

ch) **Llwybr cyfochrog a wal Ynysgain Bach,** - edrych fel bod peipen draen wedi malu ac yn anfon dwr ar hyd y llwybr, yn ei wneud yn fwdlyd, efallai bod angen gosod cerrig yno? **Y Clerc am hysybysu Cyngor Gwynedd.**

13. **Rhoslan/Ynys**

**Gwinllan Rhos Ddu** -treth dalwyr o'r tai yn yr Ynys yn mynegi pryderon ynglŷn â beth sy'n mynd ymlaen yn Winllan Rhos Ddu.
Wedi derbyn ateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud ei bod am ymweld â Gwinllan Rhos Ddu eto yn gynnar yn y flwyddyn newydd i weld lle mae'r perchennog wedi torri'r coed i greu y llynnoedd. **Derbyn**.

14. **Pont Rhydybenllig**

Rhywbeth wedi mynd fewn i bont Rhydybenllig eto. Mae'r 'gyrder' mawr gafodd ei osod llynedd wedi stumio i gyd a wedi dod i ffwrdd o'r postyn pren. Mae yna gerrig mawr wedi dod i ffwrdd o wal y bont a wedi disgyn lawr i'r tir. **Clerc wedi hysbysu'r Cyngor ond heb gael ateb.**

**Chwilog**

15. **Ffos rhwng Tyddyn Heilyn a Chwilog Fawr** – mae ffos ddyfn ar hyd y lon gul, ar y chwith am gyfeiriad Chwilog. Mae cerbydau yn gorfod bagio nol weithiau ac yn mynd yn sownd yn y ffos, ac yn gorfod cael cymorth i gael ei tynnu'n rhydd gan dractorau ffermwyr lleol. Byddai'n haws gosod peipen ddraen yn y ffos, a gorchuddio'r ffos fel nad oes peryg i gerbydau fynd i drafferth. **Heb dderbyn ymateb eto.**

16. **Cilbost Bryn Gwdyn, ger Ffatri Laeth, Chwilog** – wedi cael ei godi o'r newydd ac yn ymddangos yn rhy agos i'r lon fawr, a thybed ydynt wedi cael caniatad gan yr Adran Priffyrdd i ledu'r fynedfa ar lon mor brysur. **Heb dderbyn ateb eto.**

17. **Ceffylau ar y Lôn Goed -** tirfeddianwr ar y Lôn Goed wedi cysylltu yn dweud fod hysbyseb (dyddiedig 15.12.2021) o gais am Orchymyn Diwygio Adran 53(5) ac atodlen 14 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, wedi cael ei osod ar ddarn o'r Lôn Goed, gan y Gymdeithas Ceffylau Prydeinig. Maent yn gofyn am ychwanegu pwynt C – D sef darn o lon breifat (sydd ddim yn lwybr cyhoeddus nac yn ddarn o'r Lôn Goed) o'r lon fawr ger Plas Hen hyd at y Lôn Goed i gyfeiriad Beudy Newydd, at y darn rhwng C i E, sef sef heibio Gaerwen i gyfeiriad Coed Cae Du.
Byddai hyn yn ei galluogi wedyn i farchogaeth ceffylau ar hyd y darn yma o'r Lôn Goed.
Nid oes gohebiaeth am hyn wedi cael ei anfon at y Cyngor Cymuned yn son am hyn.
**Angen sylwadau i Cyngor Gwynedd cyn 25.01.2022.**
**Penderfynwyd gwrthwynebu y cais, ar y sail fod nifer o bobl, plant, ysgolion, a chwn yn cerdded ar hyd y Lôn yn gyson drwy'r flwyddyn. Byddai cael ceffylau yn mynd ar hyd y Lôn felly'n creu perygl i gerddwyr. Mae hefyd ceir y trigolion sydd yn byw ar hyd y rhan yma o'r Lôn Goed, yn ogystal a pheirianau a thractorau yn teithio arni'n gyson. Yn ogystal a hyn mae**

**darnau gwlyb ar hyd y darn yma o'r Lôn, a byddai ceffylau'n gwneud y sefyllfa'n llawer gwaeth.**

**Pencaenewydd/Sardis**
18. **Lloches bws Trallwyn** – mae'r sedd wedi cael ei difrodi fel na fedr neb eistedd arni, ac mae'r Clerc yn disgwyl derbyn pris i'w adnewyddu cyn y cyfarfod. **Cytunwyd i dderbyn y pris a dderbyniwyd gan Mr D.E.Williams, am £300.00 yn cynnwys T.A.W o £50.00 i gael sedd newydd.**

**Llangybi**
19. **Llwybr o Ffynnon Cybi i Bont y Merched** – y Clerc wedi holi Mr Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i weld os oedd bwriad i orffen y gwaith a ddechreuwyd ar y llwybr. Derbyniwyd ateb ganddo, yn cadarnhau fod grant i'w gael eto flwyddyn nesaf i wella ein llwybrau gan Lywodraeth Cymru ac felly byddant yn sicrhau bydd y llwybr yma yn un o rhain fydd yn cael ei gwella yn 2022. Byddant yn dechrau trafod y gwelliannau efo'r tirfeddianwyr perthnasol yn ystod y Gaeaf er mwyn bod yn barod i weithredu adeg honno. **Derbyn**.

20. **Fronheulog, Llangybi** - trigolion lleol yn anesmwyth ynglyn a'r cerrig sy'n disgyn i'r ffordd o wal yr ardd yng nghanol y pentref ac ofnir bod y coed bytholwyrdd tal sydd yn yr ardd ger y ffordd yn ansefydlogi'r wal, ac y gallai'r cerrig achosi difrod/damwain i deithwyr. **Angen i'r Clerc cysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

21. **Coedwigoedd ger Ynys Creua** - trethdalwr wedi tynnu sylw bod rhai pethau yn digwydd ynddynt ac angen tynnu sylw atynt.
Mae 3 coedwig yno, ac mae ymholiadau wedi ei derbyn gan aelodau o'r cyhoedd yn tynnu sylw at y ffeithiau isod:-

- Llawer o weithgaredd yno, coed wedi cael ei torri
- Mae mynedfeydd newydd wedi cael ei gwella yno,
- Blwch post, giatiau wedi cael ei cloi, cwt a charafan yno.
- Enwau newydd wedi cael ei gosod wrth y mynedfeydd – Coed Wen, Coed Siriol.
- Tybed a oes ganddynt hawl i wneud y newidiau yma heb ganiatâd, a beth yn union sydd yn mynd ymlaen yno?

Cwestiwn y trethdalwyr yw os oes angen caniatad gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith fel hyn, neu beth am gais cynllunio hyd yn oed? **Clerc am anfon llythyr atynt i holi.**

22. **Canolfan Iechyd Cricieth** – y fferyllfa o fewn y ganolfan wedi cau, felly bydd pawb yn gorfod mynd i'r fferyllfa sydd ar y Stryd Fawr, a bydd yn anodd cael lle i barcio yn enwedig yn yr haf. Ni dderbyniwyd rhybudd fod hyn yn mynd i ddigwydd. **Gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau.**

23. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 06.01.2022, a rhagolwg o'r gwariant tebygol erbyn 31.03.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

24. **Costau cyfrif banc HSBC** – ers 05.11.2021 mae'r banc yn codi 'ffi am gynnal y cyfrifon' o £5.00 y mis ar y cyfrif cyfredol a'r cyfrif lle mae'r taliad Lightsource yn cael ei dalu. Mae'r Clerc wedi bod yn holi yn y banc i weld os oedd rhaid ei talu, ond dywedwyd fod hyn wedi bod ar y

gweill ganddynt ers blynyddoedd a bydd pob banc arall yn gwneud yr un fath yn y dyfodol agos. Bydd hyn yn gost o £120.00 y flwyddyn rhwng y ddau gyfrif. **Angen i'r Clerc edrych ar y ddogfen gyfreithiol a wnaed hefo Lightsource i weld os oedd yn rhaid i'r arian fod mewn cyfrif arwahan. Hefyd i holi Un Llais Cymru i weld os byddai'n bosib defnyddio un cyfrif cyfredol yn lle dau, er mwyn peidio gorfod talu £5.00 y mis i'r ddau gyfrif.**

25. **Cyfarfod Cyllid/Busnes** – a gynhaliwyd 04.11.2021. Roedd y Clerc wedi anfon copi o gofnodion y cyfarfod at y Cynghorwyr i gyd o flaen y cyfarfod,yn cynnwys rhagolwg o'r incwm a gwariant rhwng Ebrill 2022 – diwedd Mawrth 2023. **Derbyn**.

26. **Praesept 2022-2023** – llythyr gan Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn dweud fod angen gadael iddynt wybod erbyn 28.01.2022, faint o braesept fydd y Cyngor Cymuned ei angen am y flwyddyn sydd yn dod.
Trafodwyd y mater yn ein cyfarfod Pwyllgor Busnes 04.11.21, ac fe awgrymwyd y dylid ei godi yn ol chwyddiant sef 2%, felly o £18,000.00 i £18,360.00 o'r 01.04.2022 ymlaen. **Cytunwyd i godi'r ffigwr.**

27. **Archwiliad allannol – cyfrifon 2020 - 2021.** – Y Clerc heb dderbyn ymateb gan yr Archwilwyr Allanol eto. **Angen cofnodi fod y Cyngor yn siomedig nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan Archwilio Cymru.**

28. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Y Clerc wedi trefnu i roi hysbyseb yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2021 o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau **15.01.2022**. **Derbyn**.

29. **Diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** – y Clerc wedi holi Adran Gwaith Stryd a Goleuo, Cyngor Gwynedd i weld os oedd yn bosib gosod 'diffib.'newydd ger y lloches bws yn Rhoslan. Y Clerc wedi derbyn ateb gan Mr Emyr Wyn Williams, Adran Goleuo Stryd, Cyngor Gwynedd yn dweud byddai yn mynd i Rhoslan i weld os byddai'n bosib gosod polyn a thrydan yno, a byddai'n rhoi pris am wneud y gwaith.

30. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 06.01.2022:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Wifi Neuadd Chwilog | O'r cyfrif Budd-Cymunedol. Mae'r taliad rhwng 01.04.21 – 31.03.22 (£31.59x1 mis a £31.33x11 mis=£376.22) | **376.22** | | **376.22** | **376.22** |

31. Cyflog mis Rhagfyr 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS :-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Rhagfyr 2021<br>35 awr y mis x £11.05 = £386.75 | 386.75 -<br>Llai treth £77.40<br>= £309.35 | **309.35** | **309.35** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Rhagfyr 2021 | 387.00 x 20% = £77.40 | **77.40** | **77.40** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau'r Clerc<br>Rhagfyr 2021 | £16.66 | **16.66** | **16.66** |

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 03.02.2022.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**